

Adroddiad i'r:	Cabinet
Dyddiad y Cyfarfod:	14 Ionawr 2014
Aelod/Swyddog Arweiniol:	Y Cyngorydd Hugh Irving / Sue Lewis
Awdur yr Adroddiad:	Sue Lewis
Teitl:	Polisi Dyraniadau Cyffredin – Un Llwybr Mynediad i Dai

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Mae'r adroddiad yn diweddarau Aelodau ynglŷn â datblygiad Un Llwybr Mynediad i Dai (ULIMID) ar draws isranbarth gogledd-ddwyrain Cymru ac mae'n gofyn i Aelodau gefnogi'r Polisi Dyraniadau Cyffredin i'w weithredu'n lleol.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Darparu gwybodaeth ynglŷn â manylion y Polisi Dyraniadau Cyffredin diwygiedig ar ôl ystyried yr adborth o'r ymgynghoriad ar y Polisi Dyraniadau Cyffredin ynghyd â'r ymchwil a'r farn gyfreithiol. Cytunwyd ar y Polisi Dyraniadau Cyffredin gan grŵp llywio ULIMID ac mae'n cael ei gyflwyno gerbron pwyllgorau/byrddau'r cyrff sy'n bartneriaid.

2.2 Gofyn am gefnogaeth i barhau â'r prosiect a gweithredu'r Polisi Dyraniadau Cyffredin yn lleol o ddiwedd 2014.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Bod Aelodau'n ystyried y Polisi Dyraniadau Cyffredin ac yn cefnogi polisi dyraniadau newydd ar gyfer Sir Ddinbych (atodiad1).

4. Manylion am yr Adroddiad.

4.1 Mae ULIMID (Un Llwybr Mynediad i Dai) yn brosiect partneriaeth rhwng yr holl brif landlordiaid yng ngogledd-ddwyrain Cymru, sy'n cwmpasu ardaloedd awdurdodau lleol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Sir y Fflint, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, Cartrefi Conwy, Cymdeithas Tai Clwyd Alyn, Cymdeithas Tai Clwyd, Tai Gogledd Cymru a Thai Cymru a'r Gorrlewin.

Nod

4.2.1 Bod yr holl bartneriaid yn cydnabod bod galw llawer uwch am gartrefi rhent yn y rhanbarth a bod y cartrefi ar gael yn eiddo'r Cyngor/Cymdeithasau Tai'n gymharol brin. Nod cyffredinol ULIMID yw darparu llwybr mynediad cyffredin i wahanol opsiynau tai sy'n dryloyw, cyfreithlon, effeithlon a hygyrch i bob rhan o'r gymuned. Bydd ULIMID yn gwella'r gwasanaeth i gwsmeriaid trwy ddarparu un rhestr aros gyffredin, gydag un polisi dyrannu ar draws Awdurdodau Lleol a Chymdeithasau Tai trwy Ogledd Ddwyrain Cymru. Rhaid i'r broses o ddyrannu tai cymdeithasol fod yn deg a chyson, a rhoi blaenoriaeth i'r bobl hynny o fewn ein cymunedau yn unol â'u hanghenion o ran tai.

4.2.2 Mae'r polisi ULIMID yn symud oddi wrth ganolbwyntio'n llwyr ar dai cymdeithasol a thuag at ddarparu cyngor realistig ynglŷn â'r dewis o opsiynau tai sydd ar gael. Mae Sir Ddinbych yn derbyn tua 1050 o geisiadau am dai y flwyddyn ond dim ond 200 o lefydd gwag sydd gan y

Sir mewn blwyddyn. Mae llawer o waith gweinyddu ynghlwm â'r ffurflenni cais o ran argraffu, mewnbynnu, pwyntiau a delio ag ymholiadau. Mae gan nifer o'r ymgeiswyr nifer isel o bwyntiau ac maent yn annhebygol o gael tŷ mewn ardal o'u dewis. Mae Polisi Dyraniadau Cyffredin ULIMID yn ceisio darparu cyngor defnyddiol a chyson i bawb sy'n gofyn amdano. Y nod yw helpu cwsmeriaid i wneud dewisiadau gwybodus a bydd yn cynnwys yr ystod eang o opsiynau tai fforddiadwy sydd ar gael gan gynnwys tai cymdeithasol, llety rhent preifat, bod yn berchen ar gartref a dewisiadau eraill. Mae'r dull hwn yn helpu i reoli disgwyliadau ac yn gymorth i gwsmeriaid ddeall yn llawn yr opsiynau realistig sydd ar gael iddynt o ran tai.

4.2.3 Mae'r polisi drafft yn symlach i'w ddeall na'r system bwyntiau bresennol. Rhoddir blaenoriaeth resymol i ymgeiswyr ar sail cynllun bandio sy'n rhestru pobl yn nhrefn dyddiad eu cais o fewn pob band. Rhoddir blaenoriaeth resymol i'r rhai sydd o fewn y categorïau statudol fel digartrefedd, gorboblogi, byw mewn amodau sydd heb fod yn iach, grwpiau meddygol neu galedi.

4.2.4 Bydd y flaenoriaeth a roddir i ymgeiswyr o fewn y cynllun bandio'n amrywio ar sail a oes angen cartref ar frys ar yr ymgeisydd, a oes gan yr ymgeisydd gysylltiad lleol a dyddiad y cais. Ni fydd ymgeiswyr nad ydynt yn y categorïau sydd â'r hawl i gael blaenoriaeth resymol yn cael unrhyw flaenoriaeth yn y cynllun bandio ac ni fyddant yn cael eu cofnodi ar y gofrestr dai. Fodd bynnag, bydd cymorth a chyngor ar gael i helpu'r ymgeiswyr hynny ddod o hyd i dai fforddiadwy sy'n diwallu eu hangen. Mae'r polisi'n gallu symud ymgeiswyr i fand is os yw eu hymddygiad yn effeithio ar eu haddasrwydd i fod yn denant. Ceir rhagor o wybodaeth yn **Atodiad A**.

4.2.5 Cynhaliwyd yr ymgynghoriad cyhoeddus ar y Polisi Dyraniadau Cyffredin rhwng 4 Mawrth a 30 Ebrill 2013 yn cynnwys arolygon i 10% o ymgeiswyr ar y gofrestr a 10% o denantiaid yn eu stoc tai. Rhoddodd bob partner yr arolwg a'r polisi drafft ar eu gwefan. Cynhaliwyd digwyddiadau ymgynghori lleol, digwyddiad rhanddeiliaid rhanbarthol a rhoddwyd sylw iddo yn y wasg leol. Cafwyd 450 o ymatebion i'r arolwg a dyma'r prif ganfyddiadau:

- Dywedodd 90% o'r bobl wnaeth ymateb eu bod yn cytuno â'r cynnig i gael un gofrestr.
- Dywedodd 80% o bobl eu bod yn cytuno â'r cynnig i roi pobl ag angen cydnabyddedig am dŷ yn unig ar y gofrestr.
- Dywedodd 82% o bobl eu bod yn cytuno â'r cynllun bandio oedd yn cael ei gynnis
- Dywedodd 89% o bobl eu bod yn cytuno y dylai pobl â chysylltiad lleol gael blaenoriaeth o'u cymharu â'r rhai heb unrhyw gysylltiad lleol.

4.2.6 Yn dilyn yr ymgynghoriad gwnaed rhai newidiadau i'r polisi yn unol â'r adborth a gafwyd. Cyflwynwyd y Polisi Dyraniadau Cyffredin Drafft i gael barn gyfreithiol arno yn Awst 2013 ac mae'r Grŵp Llywio Rhanbarthol bellach wedi cytuno i gyflwyno'r fersiwn terfynol hwn i gael sêl bendith yr holl gyrff sydd yn y bartneriaeth. Bydd y polisi'n cael ei adolygu'n flynyddol.

4.3 **Polisi a Cofrestr Ranbarthol**

4.3.1 Nod craidd y prosiect rhanbarthol yw datblygu Cofrestr Ddyraniadau ar y Cyd a Pholisi Dyraniadau Cyffredin ar draws isranbarth gogledd-ddwyrain Cymru. Ar hyn o bryd mae gan y cyrff sy'n rhan o'r bartneriaeth eu systemau TG eu hunain. Mae hyn yn golygu y gall y rhanbarth weithredu Polisi Dyraniadau Cyffredin yn gymharol hawdd. Fodd bynnag, mae datblygu cofrestr ranbarthol i gefnogi'r polisi'n fwy cymhleth a byddai angen prynu neu ddatblygu system TG. Mae'r prosiect rhanbarthol wedi gwneud rhywfaint o waith i ystyried

yr ateb fwyaf priodol o ran TG i gefnogi'r polisi ac mae angen gwaith pellach. Bydd adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i Archwilio unwaith y bydd yr opsiynau a'r costau wedi eu gwerthuso'n llawn.

4.3.2 O ystyried y pwysau ychwanegol sy'n wynebu Awdurdodau Lleol, mae Sir Ddinbych yn credu bod angen gwaith ychwanegol i nodi arbedion ariannol a manteision cofrestr ranbarthol cyn y gellir cynnig buddsoddi mewn system TG newydd. Fodd bynnag, gellir gweithredu'r polisi ranbarthol gyda chofrestr tai cyffredin yn sirol lle gall yr Awdurdod Lleol gynnal y system ar gyfer y Cymdeithasau Tai yn yr Awdurdod Lleol.

4.4 Persbectif Lleol

4.4.1 Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi ymrwymo i barhau gyda'r prosiect ranbarthol ond byddai hefyd yn hoffi cael cymeradwyaeth er mwyn symud ymlaen yn lleol o fewn y sir. Ar hyn o bryd mae gwasanaethau digartrefedd, opsiynau tai a gwasanaethau warden yn cael eu hailstrwythuro a dim ond ar ôl cwblhau hyn y gellir gweithredu'r Polisi Dyraniadau Tai. Mae'n debygol y bydd hyn yn digwydd tua Medi 2014 ar gyfer yr Awdurdod Lleol a Chymdeithasau Tai Sir Ddinbych. Mae'r adborth i'r ymgynghoriad yn dangos bod cefnogaeth i'r polisi newydd, gwell cyngor ynglŷn ag opsiynau tai a chaniatáu'n unig i'r rhai ag angen penodol o ran tai gael eu hychwanegu ar y rhestr.

4.4.2 Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi cymryd cam tuag at ddarparu'r gwasanaeth gwell trwy ganolbwyntio mwy a mwy ar y dull opsiynau tai yn y blynyddoedd diwethaf pan fo bygythiad o ddigartrefedd. Bydd y Polisi Dyraniadau Tai yn golygu y bydd galw cynyddol am gyngor ynglŷn ag opsiynau tai ac mae hyn yn cael ei gynnwys yn y broses ailstrwythuro fel rhan o ddyletswydd ehangach a fydd ar Awdurdodau Lleol o ran digartrefedd o dan y ddeddfwriaeth dai newydd sy'n cael ei datblygu ar hyn o bryd.

4.5 Cofrestr Dai

4.5.1 Gall y cynigion uchod i addasu'r modd y rheolir y gofrestr yn lleol ddechrau o tua Medi 2014. Fodd bynnag, bydd angen dull mwy graddol wrth symud i gofrestr dai gyffredin gyda Chymdeithasau Tai. Mae'r gofrestr dai bresennol yn seiliedig ar system bwyntiau ac wedi ei chynnwys o fewn meddalwedd Open Housing Capita.

4.5.2 Y cynnig fyddai datblygu'r cam gweithredu i baratoi ar gyfer symud i system fandio newydd. Byddai hyn yn cynnwys gweithio gyda TG Corfforaethol i ddatblygu system prawf a allai fod yn sail i'r gofrestr bresennol fel y gellid asesu unrhyw effeithiau a symud yn gyfan gwbl yn hydref 2014. Bydd angen i'r datblygiadau TG gynnwys opsiynau ar gyfer gynnal y gofrestr a rhoi mynediad i Gymdeithasau Tai. Byddai'r amser y byddai ei angen ar swyddogion yn y tîm i wneud y gwaith datblygu TG angenrheidiol yn gyfle iddynt lanhau'r gofrestr bresennol trwy gysylltu â phobl ar y gofrestr i drafod eu cais a'u statws presennol a sicrhau bod yr holl wybodaeth yn gyffredol ac egluro'r newidiadau i'r gofrestr a'r polisi dyraniadau.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1 Mae'r prosiect yn cysylltu'n uniongyrchol â'r blaenoriaethau corfforaethol canlynol:

- Sicrhau mynediad at dai o ansawdd da
- Ymateb i newid demograffig
- Dull sy'n canolbwyntio ar gwsmeriaid – gwella'r gwasanaeth a ddarperir trwy gynnig un pwynt cyswllt a rhoi cyngor realistig ynglŷn ag opsiynau tai

6. Beth fydd yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1 Mae'r prosiect wedi sicrhau'r cyllid canlynol:

- Mae bron i £120,000 o Grant Rheoli Tai Cymdeithasol wedi ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru i ariannu'r prosiect arloesol hwn. Mae'r prosiect yn disgwyl i'r swm gael ei gadarnhau ar gyfer 2014/15 gan Lywodraeth Cymru.
- Cafwyd arian cyfatebol i'r Grant Rheoli Tai Cymdeithasol gan bartneriaid y prosiect

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a wnaed ar y penderfyniad? Ar ôl cwblhau'r Asesiad o Effaith Cydraddoldeb dylid ei atodi i'r adroddiad.

7.1 Cynhaliwyd Asesiad Effaith Cydraddoldeb llawn trwy'r prosiect gyda chymorth gan Tai Pawb (gweler **Atodiad B**).

8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?

Mae'r prosiect ULIMID yn deillio o drafodaeth gan Archwilio oedd yn cynnwys Gwasanaethau Tai a Chymdeithasau Tai ar 16 Medi 2010. Mae'r prosiect wedi ei gyflwyno i nifer o bwyllgorau'n cynnwys:

- Gwahanol bwyllgorau archwilio - Cymunedau a Phartneriaethau
- Cabinet Anffurfiol – 4 Gorffennaf 2011
- Archwilio Cymunedau - 14 Mehefin 2012
- Ymgynghoriad cyhoeddus ar Bolisi Dyraniadau Cyffredin - Mawrth i Ebrill 2012
- Grwpiau prosiect – grwpiau llywio a gweithgorau
- Pwyllgor Archwilio Partneriaethau ar y 19 Rhagfyr 2013 – gweler atodiad C ar gyfer y pwyntiau allweddol a godwyd yn y drafodaeth.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Bydd angen i'r cyfalaf a'r costau refeniw ar gyfer sicrhau'r ateb TG gael eu nodi'n glir a'u cynnwys o fewn y cyllid sydd ar gael pan gaiff ei gadarnhau. Bydd angen cytuno ynglŷn â'r costau TG gyda'r holl bartneriaid a'u monitro'n agos yn erbyn y cyllid. Bydd angen pennu'r manteision cysylltiedig unwaith y deuir o hyd i'r ateb TG gorau.

10. Pa risgiau sy'n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1 Caiff y risgiau ar gyfer pob prosiect eu monitro a'u gwerthuso'n gyson fel rhan o'r dull rheoli prosiect gan Reolwr y Prosiect a bob un o'r cyrff dan sylw.

11. Y Grym i wneud Penderfyniad

Mae Adran 167 o Ddeddf Ddigartrefedd 1996 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Ddigartrefedd 2002 yn ymwneud â dyraniadau.